**ATODIAD 2**

**AMLINELLIAD O GAIS Y FARGEN TWF**

Mae cynnwys cychwynnol y Fargen Twf yn cyd-fynd gyda'r weledigaeth a'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y partneriaid rhanbarthol yn 2016. Pedwar prif thema y Cais yw:

- Safleoedd strategol ar gyfer gwaith, cysylltiad digidol a thai;
- Isadeiledd trafnidiaeth a gwasanaethau;
- Arloesi a thwf busnes; a
- Sgiliau, diweithdra a diwygio cymdeithasol.

Bydd y Fargen Twf yn rhedeg ochr yn ochr ag ac yn cefnogi:

- Polisi economaidd a chymdeithasol Llywodraeth Cymru a'r DU;
- Polisi Llywodraeth y DU i ddatblygu ysbryd cystadleuol economi'r Undeb yn dilyn trafodaethau BREXIT;
- Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth ranbarthol a datganoli;
- Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU;
- Cynlluniau Sector Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ym meysydd niwclear, ynni, gweithgynhyrchu (modurol ac awyrofodol) a digidol;
- Cynllun Isadeiledd Cymru; a
- Cynllunio a chysylltedd traws-ffiniol e.e Growth Track 360 ac elfennau o Gytundeb Datganoli Partneriaeth Fenter Leol Sir Gaer a Warrington.

Mae'r cais yn hyrwyddo twf drwy gryfhau sectorau gwerth uchel ym meysydd:

- Ynni Carbon Isel;
- Gweithgynhyrchu Uwch;
- Digidol a Chreadigol;
- Cefnogaeth i fusnesau.

Bydd ein prosiectau yn cael eu hadnabod o dan 5 brif bennawd:

- Isadeiledd Trafnidiaeth – Gwella cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y Gogledd;
- Isadeiledd Safleoedd ac Eiddo – Mae'r rhanbarth yn brin o safleoedd parod ar gyfer y sector preifat;
- Digideiddio - Buddsoddi mewn isadeiledd digidol ar draws y rhanbarth a gwneud y Gogledd yn barod am ddatblygiadau pellach;

- Sgiliau a Chyflogaeth – Bylchau sgiliau sylweddol yn bodoli ar draws y rhanbarth ac mae angen ysbrydoli pobl ifanc i ddilyn gyrfaoedd sy'n cyd-fynd efo sectorau twf yn y rhanbarth;
- Cefnogaeth Busnes – Cefnogi busnesau'r ardal mewn sectorau penodol.

Gall canlyniadau strategol y Fargen Twf gynnwys:

- Gwerth uwch i safleoedd gwaith a thai strategol;
- Datblygiad i safleoedd strategol;
- Mynediad trafnidiaeth e.e. lleihau amseroedd teithio i safleoedd gwaith strategol; ffigyrau defnydd trafnidiaeth i ddangos symudiad moddol i drafnidiaeth gyhoeddus;
- Buddsoddiad busnes; Twf busnes; Perfformiad busnes;
- Ffigyrau cyflogaeth yn ôl math/sector/gwerth;
- Ffigyrau sgiliau – yn ôl math/sector/lefel – o'u cymharu â thargedau'r strategaeth sgiliau ranbarthol;
- Lleihad mewn diweithdra a dibyniaeth ar fudd-daliadau;
- Cyfartaledd cyfraddau incwm gan gynnwys incwm aelwydydd;
- Gwerth Ychwanegol Crynswth Rhanbarthol (GYC);
- Ffigyrau twf tai cynaliadwy; a
- Darpariaeth ynni adnewyddol ynghyd â lleihad carbon.

Mae'r gwaith yn parhau gyda chymorth arbenigol Ysgol Fusnes, Prifysgol Bangor i ddatblygu cyfres o fesuriadau perfformiad a thargedau canlyniad wedi eu seilio ar ddata a thystiolaeth economaidd.

Mae rhai o'r deilliannau a ddisgwylir o'r Fargen Twf yn cynnwys:

- Twf mewn GDP a lefelau cynhyrchu ar draws y Gogledd;
- Twf mewn cyflogaeth a buddsoddiad gan y sector preifat, yn enwedig y sectorau ynni carbon isel, gweithgynhyrchu uwch a digidol;
- Lleihad mewn diweithdra ac anweithgarwch economaidd.

Bydd Llywodraeth y DU yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fuddsoddi arian cyfatebol â nhw yng Ngogledd Cymru. Bydd y ddwy Lywodraeth yn trafod maint eu buddsoddiad yng Nghytundeb Twf Gogledd Cymru. Fel rhan o'r pecyn bydd y Sector Breifat hefyd yn ychwanegu at y Bid Twf.